**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

## Amlosgfa Llwydcoed

Cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019 am 2.00pm yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o Gydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd D Isaac (Cadeirydd)

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Y Cynghorydd D Chaplin, y Cynghorydd J Thomas a'r Cynghorydd M Colbran
**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Y Cynghorydd H Boggis    Y Cynghorydd A Crimmings

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms J Lewis, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
Mr S Preddy, Cyfrifydd Grŵp
Mr C Pritchard, Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent/Goruchwyliwr yr Amlosgfa
Ms L Coughlan, Cyfreithiwr

**14 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Jones a K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

**15 DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

**16 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019 yn rhai cywir.

**17 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU**

17.1 Archwiliad o'r Amlosgfa

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â chanfyddiadau'r arolygiad o'r Amlosgfa, a gynhaliwyd gan Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi.

Adroddwyd bod yr arolygiad wedi canfod bod yr Amlosgiad yn cydymffurfio'n llawn â'r holl feysydd a arolygwyd, ar wahân i un maes a oedd yn ddiffygiol, sef y ffaith nad oedd diffibriliwr yn yr Amlosgfa. Serch hynny, nodwyd bod diffibriliwr wedi'i brynu ac y byddai'n cael ei osod ar y safle cyn bo hir.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad arolygu a dderbyniwyd gan Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi.

17.2 Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) – Cynllun Ailgylchu Metelau

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â Chynllun Ailgylchu Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd.

Adroddwyd bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi enwebu Cronfa'r Maer ar gyfer Cymorth Cancr Macmillan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel yr elusen enwebedig ar gyfer y cyfnod yma, i dderbyn rhodd o £8,000. Cafodd yr Amlosgfa Llwydcoed lythyr o ddiolch oddi wrth yr elusen ar ôl iddyn nhw dderbyn y rhodd

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r wybodaeth.

17.3 Ystyried y gwaith arfaethedig o drosi Crematorium House yn Ystafell Gyfarfod/Storfa.

Gofynnodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau i'r Aelodau drafod y gwaith arfaethedig o drosi Crematorium House yn Ystafell Gyfarfod/Storfa.

Adroddwyd bod Adran Eiddo'r Cyngor wedi llunio cynllun gwaith, ynghyd â chyfrifo costau'r prosiect gwerth £43,908.20.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cynllun a chostau cysylltiedig y prosiect.

17.4 Ystadegau a Chyflawniad

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ystadegau a'r ffigurau cyflawniad sy'n

ymwneud â gweithrediad yr Amlosgfa ers y cyfarfod diwethaf.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn y taflenni.

## 18 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2019-20

Rhoddodd Cyfrifydd y Gyfadran yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2019/20, a oedd yn cymharu'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant rhagamcanol yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd am saith mis cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20. Cafodd eglurhad ei ddarparu mewn perthynas â'r prif amrywiant yn y gwariant.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad o ran adroddiad Monitro'r Gyllideb 2019/20.

## 19 CYD-ADRODDIAD CYFARWYDDWR IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED A'R CYFARWYDDWR CYLLID A GWASANAETHAU DIGIDOL

Cyflwynwyd cyd-adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n cynnig trefniant ar gyfer ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed yn flynyddol.

Cafodd yr aelodau wybod roedd gan y Cydbwyllgor gronfa wrth gefn o £2.206 miliwn ar 31 Mawrth 2019 a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

Adroddwyd bod cyfle i'r Cydbwyllgor gyflwyno trefniant lle mae'r Pwyllgor yn cadw'r lefel briodol o arian wrth gefn sy'n ofynnol i fodloni gofynion cyfalaf Amlosgfa Llwydcoed yn y dyfodol, a hefyd caniatáu ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn i bob Cyngor i gefnogi buddsoddiad blaenoriaethau cyfalaf ehangach.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

(1) Cymeradwyo ailddosbarthu cronfeydd wrth gefn cyffredinol Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 yr adroddiad hwn; a

(2) Yn amodol ar 2.1, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol i roi'r trefniadau ariannol angenrheidiol ar waith ar gyfer ailddosbarthu.

## 20 ADRODDIAD CYFARWYDDWR IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned adroddiad sy'n cynnig bod y Cyngor yn cynnal cynllun peilot ar gyfer ffi

amlosgi is i drefnwyr angladdau sy'n cynnig amlosgiadau uniongyrchol neu syml yn Rhondda Cynon Taf.

Adroddwyd y byddai'r cynnig yn cyflwyno opsiwn i drefnwyr angladdau gynnig amlosgiadau uniongyrchol gan ddefnyddio amlosgfeydd, sy'n gyson â'r arfer cyfredol mewn amlosgfeydd ledled Cymru a'r DU. Byddai hyn er mwyn ymateb i'r galw cynyddol gan deuluoedd sy'n ceisio cadw cost angladdau yn isel, a chael angladd symlach, a bydd yn cefnogi ymrwymiad y ddau Gyngor i gynorthwyo'r bobl sydd ar y cyflogau isaf sy'n gallu ei chael hi'n anodd talu costau angladd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a’r Gymuned mai £710 yw'r ffi amlosgi ar hyn o bryd a chynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnig ffi ostyngedig o £560 am amlosgiad uniongyrchol.

Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â chynnig gostyngiad i gyn-filwyr, cytunodd yr Aelod y bydden nhw'n hapus i dderbyn y cynnig yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:-

1. Cymeradwyo cynllun peilot 12 mis o hyd, lle bydd ffi amlosgi ostyngedig i gyfarwyddwyr angladdau sy'n cynnig gwasanaeth amlosgi uniongyrchol; ac
2. Yn amodol ar 2.1, bydd y Pwyllgor yn gosod ffi o £560 ar gyfer y gwasanaeth yma a fydd yn dod i rym o 1 Ionawr 2020 (ac nid Ionawr 2019 fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad).

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.23pm**

**H. Boggis**
**Cadeirydd**